O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 19 (Cy. 6)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cilgeti, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Ionawr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *16 Ionawr 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno:

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** , drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ionawr 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilgeti, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd ger Cilgeti, yn Sir Benfro, sy'n ymestyn o bwynt 4.45 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Cilgeti i bwynt wrth ei chyffordd â'r gylchfan honno;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 16 Ionawr 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.